

Papur FSAW 19/07/03
I'w drafod

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Dros Dro

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodol yn cyfeirio at faterion a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yn y cyfarfod Bwrdd diwethaf a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019. Mae cofnodion llawn cyfarfod y Bwrdd ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) drwy <http://www.food.gov.uk> (Saesneg yn unig). Mae'r papur hefyd yn rhoi diweddariad ar faterion sy'n berthnasol i Gymru ac mae'n sail i'r diweddariad i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru.
2. Bydd Cyfarwyddwr Dros Dro yr ASB yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.
3. Gwahoddir aelodau i:
 - **nodi** i'r diweddariad
 - **gwahodd** y Cyfarwyddwr Dros Dro i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

Swyddog Cyswllt yn ASB Cymru: Lucy Edwards
lucy.edwards@food.gov.uk

Papur FSA 19/07/03

I'w drafod

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr

1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 19 Mehefin 2019.

1.1. Cafodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 19/06/04) sydd ar gael drwy'r ddolen hon (*Saesneg yn unig*):

<https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-19-06-04-ceos-report-to-the-board.pdf>

2. Adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru

Ymgysylltu'n allanol

2.1. Rwyf wedi bod yn rhan o'r cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) gyfarfod ddiwethaf mewn sesiwn agored ar 11 Ebrill 2019:

- 15 Mai – Cyfarfod â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- 15 Mai – Gweithgor Rheoleiddio Ein Dyfodol
- 29 Mai – Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelu Iechyd
- 29 Mai – Cyfarfod â Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru i drafod Pwyllgor Cyswllt Bwyd Cymru
- 4 Mehefin – Digwyddiad 'galw heibio' anffurfiol ar gyfer Aelodau Cynulliad, ar thema Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a pharatoadau'r Asiantaeth i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Roedd y digwyddiad hwn yn rhagflaenu'r digwyddiad isod.

Derbynfa Amser Cinio: Aelodau Cynulliad Cymru

2.2 Ar 9 Gorffennaf, bydd yr ASB yng Nghymru yn cynnal digwyddiad i Aelodau'r Cynulliad i roi diweddariad ar feysydd blaenoriaeth yr Asiantaeth. Wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i Ymadael â'r UE, byddwn ni'n trafod sut y byddwn ni'n mynd ati i sicrhau bod trefn reoleiddio gadarn ac effeithiol yn parhau ar gyfer cynnal diogelwch bwyd i ddefnyddwyr yng Nghymru. Gwahoddir prif rhanddeiliaid yng Nghymru hefyd. Bydd Heather Hancock, Cadeirydd yr ASB a Vaughan Gething, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn traddodi'r prif areithiau. Noddir y digwyddiad gan Jenny Rathbone AC.

Digwyddiadau Rhanddeiliaid

- 2.3 Bydd gan yr ASB stondin yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2019 a gynhelir yn Llanelwedd rhwng 22-25 Gorffennaf ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Llanrwst rhwng 3-10 Awst.

Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Safonau Bwyd

- 2.4 Ar 10 Mai 2019, cyhoeddodd yr ASB Gynllun iaith newydd ar gyfer 2019-2022, gan amlinellu sut y bydd yr Asiantaeth yn parhau i ddarparu gwasanaethau Gymraeg a Saesneg cyfartal i ddefnyddwyr yng Nghymru. Mae'r Cynllun, sydd wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn adeiladu ar sylfaen ein dau Gynllun blaenorol ac yn sicrhau bod ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas at y diben. Mae'r Cynllun yn berthnasol ar draws yr Asiantaeth ac mae cynllun gweithredu yn cyd-fynd ag ef, sy'n nodi sut y byddwn ni'n gweithredu'r ymrwymadau o fewn y Cynllun. O dan [Mesur yr Iaith Gymraeg 2011](#), yn y pen draw, bydd gofyn i'r ASB gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a fydd yn disodli'r Cynllunhwn. Tan hynny, bydd yr ASB yn gweithredu yn unol â'r ymrwymadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun iaith Gymraeg newydd.

<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/yr-asiantaeth-safonau-bwyd-yn-cyhoeddi-cynllun-iaith-gymraeg-newydd>

Cynnig i sefydlu Pwyllgor Cyswllt Gorfodi Bwyd

- 2.5 Yn gynharach eleni, fe gyflwynodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru gynnig i sefydlu fforwm er mwyn galluogi'r ASB a Llywodraeth Leol yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd, gyda phartneriaid allweddol eraill, i lywio datblygiad a darpariaeth polisi ac arferion cyfraith bwyd yng nghyd-destun ystyriaethau polisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau ehangach yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn rhan o nifer o gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartion perthnasol eraill i drafod y cynnig, gan ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r holl gyfrifoldebau perthnasol. Mae trefniadau gweithredol ar gyfer y Pwyllgor wrthi'n cael eu cwblhau.

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

- 2.6 Ar 28 Mehefin, gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ASB ar gyfer 2018/19 (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. **DOLEN**

Alergenau

- 2.7 Ar 25 Mehefin, cyhoeddodd Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Michael Gove, ymgyrch i ddiogelu'r ddwy filiwn o bobl sy'n dioddef o alergeddau bwyd yn y wlad â chyfraith newydd i'w gwneud hi'n ofynnol i fusnesau bwyd labelu pob cynhwysyn ar gynnyrch bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw. O dan y cyfreithiau presennol, nid yw'n ofynnol arddangos gwybodaeth am alergenau yn ysgrifenedig ar fwyd sy'n cael ei baratoi ar y safleoedd y caiff ei werthu ynddo, sy'n golygu nad yw'r rheiny sy'n dioddef o alergeddau yn hyderus wrth brynu bwyd. Bydd y deddfwriaeth newydd, sef 'Cyfraith Natasha', yn gosod rheolau llymach trwy fynnu bod bwydydd sy'n cael eu pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu yn cynnwys rhestr lawn o gynhwysion. Bydd hyn yn rhoi rhagor o hyder i'r rheiny sy'n dioddef o alergeddau yn y bwyd y maent yn ei brynu. Cynigir y bydd y deddfau newydd yn dod i rym yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon erbyn haf 2021, gan roi amser i fusnesau bwyd addasu i'r newid <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/yr-asiantaeth-yn-croesawu-cyfraith-labelu-alergenau-newydd>

3 Edrych i'r dyfodol: Gair gan Gyfarwyddwr Newydd Cymru

- 3.1 Fel rhan o'm cyfnod sefydlu, rwy'n bwriadu parhau â'r ymweliadau â rhanddeiliaid a ddechreuodd y Cyfarwyddwr Dros Dro yn 2018. Rwy'n obeithiol y byddwn ni wedi cyfarfod â phob awdurdod lleol yng Nghymru a rhanddeiliaid allweddol eraill erbyn diwedd y flwyddyn.
- 3.2 Rwy'n croesawu cynigion i gynnal ail symposiwm y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar arloesi mewn bwyd ac rwy'n ddiolchgar am y cymorth y mae'r gymuned wyddonol ac academaidd yng Nghymru yn ei ddarparu i wneud y digwyddiad hwn yn un llwyddiannus.

Richard Bowen

Cyfarwyddwr Dros Dro, ASB yng Nghymru

Nathan Barnhouse

Cyfarwyddwr, ASB Cymru
Gorffennaf 2019